

BRYANT, TOM (1882 - 1946), telynor

Enw: Tom Bryant
Dyddiad geni: 1882
Dyddiad marw: 1946
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: telynor
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 22 Gorffennaf 1882 yn y Carpenter's Arms, Efail Isaf, ger Pontypridd, Morgannwg. Yr oedd [John Bryant](#) yn ewythr iddo, ac ef a'i dysgodd i ganu'r delyn. Dechreuodd yn ieuanc gystadlu ac ennill gwobrwyon mewn eisteddfodau. Enillodd y wobwr gyntaf yn yr eisteddfod genedlaethol 1891-1896. Ymwelodd ag ardaloedd y deheudir gyda ' [Wacyn Wyn](#) ' ac ' [Eos Morlais](#) '; darlithiai ' [Wacyn Wyn](#) ' ar ganeuon gwerin, a chenid gan ' [Eos Morlais](#) ' i gyfeiliant y delyn gan Tom Bryant.

Yn 1906 enillodd radd A.R.C.M.; yr un flwyddyn, ar achlysur agor doc newydd yng Nghaerdydd gan y brenin Edward VII, gwahoddwyd ef i ganu'r delyn i'w Fawrhydi. Ymwelodd â phrif drefi Prydain i gynnal cyngherddau gyda'r ' Golden Quartette '. Cyfansoddodd ddarnau i'r delyn, ac amrywion ar yr alawon ' Merch y Felin ' a ' Merch Megan '.

Bu farw 13 Ionawr 1946, a chladdwyd ef ym mynwent Tabernacl, Efail Isaf, ger Pontypridd.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Western Mail, 16 Ionawr 1946

The Pontypridd Observer, 19 Ionawr 1946

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804810](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

